

Llyfr storïau rhyfeddol Duw

“A galwasant ar Rebeca, a dweud wrthi, ‘A ei di gyda’r gŵr hwn?’ Atebodd hithau, ‘Af.’ (adn. 58)

Beth am ddarllen Genesis 24:1–67 ac yna myfyrio

Daliwn ati i fyfyrio ar y ffaith bod y rhan fwyaf o’r Beibl wedi ei hysgrifennu ar ffurf stori. Os collwn ein golwg ar hyn, yna fe gollwn ein golwg ar un o ddoniau mawr Duw, oherwydd, fel y dywedodd G.K. Chesterton, “Duw yw’r adroddwr storïau gorau yn y byd.” Mae storïau’r Beibl yn ein paratoi ar gyfer gwirioneddau mawr. Fel enghraifft o hynny, mae’r stori a ddarllenwyd gennym heddiw yn rhoi help i ni i ddeall y ffordd rhyfeddol yr anfonodd Duw ei Ysbryd Glân i mewn i’r byd er mwyn ceisio priodferch i’w Fab. Yn union fel y bu i’r gwas yn y stori symud o dan arweiniad Duw nes iddo o’r diwedd ddod o hyd i’r un yr oedd Duw wedi ei ddewis i fod yn wraig i Isaac, felly y mae’r Ysbryd wedi symud (ac yn dal i symud) trwy’r byd, yn ceisio’r rhai mae Duw wedi eu dewis ac yn eu paratoi ar gyfer y dydd pan fydd y Briodferch (yr Eglwys) a’r Priodfab (Crist) yn cael eu huno ynghyd yn dragywydd.

Un o’r disgrifiadau gorau rwyf i wedi ei glywed o’r Hen Destament yw hyn: *Llyfr stori rhyfeddol Duw.* Dyna ydy o, yn wir. Perthyn tueddiad peryglus i ddiwylliant ein dyddiau ni; ymddengys fel petai’n colli golwg ar werth stori. Heddiw mae llawer o blant yn dechrau mynd yn anniddig pan ofynnir iddyn nhw wrando ar stori’n cael ei hadrodd. Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd, byddai chwarter awr olaf pob diwrnod yn cael ei neilltuo ar gyfer darllen stori gan ein hathro. Os byddai rhywun wedi camymddwyn yn ddifrifol, un o’r cosbau fyddai’n cael ei weithredu fyddai amddifadu’r dosbarth o’i stori ddyddiol. Pryd bynnag y byddai hynny’n digwydd byddem ni’n dannod cymaint i’r drwg weithredwr ar y ffordd adref o’r ysgol nes y byddai hwnnw, neu honno, yn meddwl dwy waith cyn camymddwyn eto. Dyma beth sy’n fy mhoeni i am y tueddiad yma yn ein cymdeithas. Os yw Satan yn dinistrio ein diddordeb ni mewn stori, yna mae arnaf ofn y byddwn ni’n colli ein diddordeb yn stori Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Neh. 8:1–12;

Actau 8:26–39

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd canlyniad clywed Llyfr Duw yn cael ei ddarllen?
2. Beth ddigwyddodd fel canlyniad i’r eunuch ddarllen Llyfr Duw?

Gweddi O Dduw, gwared fi rhag y tueddiadau dinistriol yn ein cymdeithas heddiw. Rwyf ti wedi rhoi’r llyfr storïau mwyaf rhyfeddol i mi. Fi fy hun sydd ar fy ngholled o’i esgeuluso. Helpa fi i beidio â cholli golwg byth ar ei bwysigrwydd aruthrol ac ofnadwy. Yn enw Crist y gofynnaf hyn. Amen.